

Cyngor Cymuned **Llanidan** Community
Council

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fawrth, 27/03/2018.

Minutes of meeting held Tuesday Evening, 27/03/2018.

Presennol / Present: Mrs Lynn Hervouet (Cadeirydd 'Clerc Dros Dro' / *Chairperson* 'Temporary Clerk') **LH**, Ms Sandra Thomas ('Cadeirydd Dros Dro' / *Temporary Chairperson*') **ST**, Mr Arthur Thomas **AT**, Mr Cenwyn Williams **CW**, Cynghorydd Mr Eric W. Jones (CSYM) **EWJ**.

Ymwelwyr Presennol / Present Visitor: Mrs Sam Newsome, Perchennog caffi newydd / *New cafe owner* **SN**.

Ymddiheuriadau / Apologies: Mr Chris Davies, (Is-gadeirydd / *Vice Chairperson*) **CD**, Mr Steven A. Jones **SAJ**, Cynghorydd Mr Dafydd Roberts (CSYM) **DR**.

1. Croeso / Welcome

Cadeiriwyd y cyfarfod gan **ST** ac fe groesawyd pawb oedd yn bresennol.
The meeting was chaired by ST and all present were welcomed.

2. Caffi / Cafe Brynsiencyn

Croesawyd **SN** i'r cyfarfod. Daeth **SN** i drafod agoriad y caffi newydd. Maent yn gobeithio agor y caffi erbyn canol haf 2018 ac i gael eu hagor trwy gydol y flwyddyn, gan ddechrau yn agor am 3 diwrnod yr wythnos gyda'r bwriad o gynyddu i 5 diwrnod yr wythnos. Ddim yn siŵr o oriau agor eto wrth iddynt weld potensial yn y farchnad gyda bore cynnar a phobl yn dychwelyd o'r traeth yn hwyrach yn y prynhawn. Byddant yn gweini bwyd o ansawdd da gyda paninis, cawl a brechdanau. Bydd gan y caffi arwyddion dwyieithog a bydd yn rhaid iddynt fynd drwy'r adran gynllunio yn gyntaf.

SN was welcomed to the meeting. SN came to discuss about the opening of the new cafe. They are hoping to open the cafe by mid summer 2018 and to be opened all year round, starting with opening 3 days per week with a view to increase to 5 days per week. Not sure of opening hours yet as they see potential in the market with early morning and people returning from the beach later in the afternoon. They will be serving good quality food with serving paninis, soup and sandwiches. The cafe will have bilingual signage and they will have to go through planning department first.

2. Datgan Diddordeb / Declaration of Interest

Dim / *None*.

3. Cofnodion Cyfarfod Diwethaf 27/2/2018/ Minutes of last meeting 27/2/2018

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir, Cynigwyd gan **CW**, Eiliwyd gan **AT**.

*The minutes were confirmed correct, Proposed by **CW**, Seconded by **AT**.*

4. Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising from the minutes

- 4.0.1 Ffurflenni Cofrestr Buddiannau – Diweddarau, ffurflen gan **MEE**, **CD** a **CW** iw ddod.

*Benefits Register Forms – Update, **MEE**, **CD** and **CW** is still outstanding.*

- 4.0.2 Cae Chwarae - Adroddiad gan RoSPA / Aseiad Risg
I'w drafod eto yn ystod cyfarfod mis Ebrill. Penderfynwyd i ddechrau cyfarfod mis Ebrill yn y cae chwarae am 6.30 y.h., oherwydd mae angen I ni weld yr offer "Risg Uchel" gan fod angen i ni werthuso faint o rannau sy'n pydru ac asesu cyflwr y ffrâm multiplay cyn ein harolygiad nesaf hwyrach ymlaen yn y flwyddyn.

To be discussed again during April's meeting. It was decided to start our April meeting at the playing field at 6.30pm, because we need to see the "High Risk" equipment as we need to evaluate the amount of decaying parts and assess the condition of the multiplay frame before our next inspection later on in the year.

- 4.0.3 Ystâd Bryn y Gelli - Lampau Goleuo Stryd Ddiffygiol / Street lamps defects
Dim ymateb wedi dderbyn gan Cymdeithas Tai Clwyd Alyn i ebost diwethaf. Gyrru e-bost a ffonio eto i drafod pwysigrwydd y mater.

No response received from last email sent to Cymdeithas Tai Clwyd Alyn.

Another email to be sent and a phone call to highlight the importance of this issue.

- 4.0.4 Cae Pêl Droed Maes Chwarae - Rhwydi goliau
CW wedi cyflwyno 'ULTRA MESH FENCING' fel dewis gwahanol i rhwydi defnydd. **CW** i chwilota am brisiau ar gyfer y cynnyrch. I'w drafod eto yn mis Ebrill.

***CW** presented 'ULTRA MESH FENCING' which is an alternative to fabric netting. **CW** to seek a quote for the product. To be discussed again during April's meeting.*

- 4.0.5 Apwyntiad Swydd Clerc / Clerk Job Appointment

Neb wedi dangos diddordeb yn y swydd, **LH** i fod yn glerc dros dro gyda **CD** yn cadeirio y cyfarfodydd, **SAJ** i wneud y taliadau yn unig am y tro. Rydym wedi hysbysu'r swydd ar tudalen Cymunedol Brynsiencyn (Facebook) a mae **LH** am ebostio **DR** i ofyn iddo i gynnwys ar gwefan Cyngor Cymuned Llanidan. Mae **LH** yn hysbysu'r swydd unwaith eto y tro yma yn rhifyn nesaf (Ebrill) o Bapur Menai, ac yn ffenestri; swyddfa post, clwb snwcer a'r ganolfan cymunedol gyda dyddiad cau Dydd Gwener 13eg Ebrill 2018. Ar ôl y dyddiad yma bydd rhai o'r aelodau yn cysylltu gyda Un Llais Cymru ag Adran Etholiad

CSYM i ddweud bod gan **LH** diddordeb yn y swydd ag fydd hi'n bosib iddi cymeru drosodd yn parhaol gyda debyg byddem yn torri Côt Ymddygiad? *No interest received for the vacancy, **LH** to undertake clerk duties temporarily whilst **CD** to chair next meetings, **SAJ** to continue to process payments for now. We have advertised the vacancy on Brynsiencyn Community (Facebook) page and **LH** will be emailing **DR** to ask for it to be included on Llanidan Community Council's website. **LH** is advertising the vacancy once again this time it will appear in the next issue of "Papur Menai", in the windows of; post office, snooker club and community centre with a closing date of Friday 13th April 2018. After this date some of the members will contact One Voice Wales and Electoral Department of Anglesey County Council to mention that **LH** is interested in the vacancy and will it be possible for her to take over on a permanent basis with a likely cause that we will break the Code of Conduct?*

4.0.6 Ceisiadau Rhoddion / Donation Requests

Rhoddwyd £100.00 tuag at prosiect Rhyfel Byd Cyntaf i plant a phobl y pentref wedi ei dalu gan **SAJ**. Mrs Hall wedi anfon ebost i ddiolch. *£100.00 donation was given towards the World War 1 project paid by **SAJ**. Received an email from Mrs Hall to thank for the donation.*

4.0.7 Aelodau Newydd – Enwebiad / New Members – Nominations

EWJ am ofyn i adran etholiad CSYM am y ffurflenni a bydd yn pasio un ymlaen i **SAJ** cyn cyfarfod mis Ebrill. ***EWJ** to ask in the electrol department of Anglesey County Council for the forms and will pass one on to **SAJ** before April's meeting.*

4.0.8 Rheoli Risg Llifogydd Brynsiencyn / Controlling the Risk of Flooding in Brynsiencyn

Mi wnaeth **LH** fynychu'r arddangosfa a rhoi adroddiad byr i'r aelodau. Bydd y giatiau llifogydd os wneith y cynllun yn cael ei basio gan adran cynllunio CSYM a Llywodraeth Cymru, cael eu gosod ar ddechrau flwyddyn 2020 a bydd yn cymeru oddeutu 3 i 4 mis yw gosod. ***LH** attended the exhibition and gave a short report to the members. The flood gates if planning permission is given by Anglesey County Council and Welsh Government, will be put in place at the beginning of the year 2020 and it will take approximately 3 to 4 months to install.*

4.0.9 Stad Tyn Bryn, Brynsiencyn / Tyn Bryn Estate, Brynsiencyn

Wedi cael ymateb gan trigolion Stad Tyn Bryn i'r ebost oddiwrth CSYM. Mae **LH** am ebostio'r llythyr yma ymlaen ar ran y trigolion. Mae angen cefnogi pwynt 1. ar llythyr gan y trigolion; Mae llinellau melyn wedi dod yn rhy bell ar hyd Lôn Uchaf, efalla lle i un neu ddau gar? Yw trafod ymhellach yn y cyfarfod mis Ebrill. *We have received an answer from residents of Tyn Bryn Estate to the email from Anglesey County Council. **LH** will email this reply on behalf of the residents. We need to support point 1. on the letter from the residents, The yellow lines have*

come too far along Lôn Uchaf Road, maybe one or two car spaces? To be discussed further in April's meeting.

4.1.0 Adnewyddu Aelodaeth i / *Membership Renewal for Society of Local Council Clerks (S.L.C.C.)*

LH – diweddariad? / **LH** – *update?*

Rydym wedi derbyn llythyr gan S.L.C.C. yn dweud bod ein aelodaeth ni wedi dod i ben. Mae yna ffordd o ail aelodi yn y dyfodol. Efalla aros tan gawn ni glerc parhaol?

We have received a letter from S.L.C.C. stating that our membership has come to an end. There is a way of renewing in the future. Maybe wait until we have a permanent clerk?

4.1.1 Cynllun Gweithredu Brynsiencyn Action Plan.

Diweddariad? / *Update?*

Penderfynwyd gadael hwn tan cyfarfod mis Ebrill.

It was decided to leave this until April's meeting.

5. Cyllid / Finance

5.1 Cadarnhau Taliad / *Payment Confirmed*

£75.00 – Archwiliad Cyfrifon / Accounts Inspection 2016/17

£350.00 – Codi Sbwriel, Cae Chwarae 2017/18 / Collect Rubbish, Playing Field 2017/18.

£135.00 – Etholiad Diwrthwynebiad 04/05/2017, Uncontested Election 04/05/2017.

5.2 Biliau iw Dalu / *Bills for Payment*

£548.00 – Cyflog Y Clerc (Ionawr, Chwefror a Mawrth).

£137.00 – HMRC (PAYE Ionawr, Chwefror a Mawrth).

£144.00 – Adnewyddu Aelodaeth Un Llais Cymru / Renewing Membership One Voice Wales.

5.3 Taliadau wedi Derbyn / *Payments*

Received Dim / None

*Cynigwyd gan **CW**, Eiliwyd gan **AT**. / Proposed by **CW**, Seconded by **AT**.*

5.4 Cais am gyfraniad / *Request for contribution*

Rydym wedi derbyn llythyr gan Bopath Canolfan Therapi Plant Cymru yn gofyn am gyfraniad gennym eto eleni. Yn anffodus roeddem wedi derbyn y llythyr yn rhy hwyr i ystyried y cais. Mi wnawn ni adael y cais ar ein ffeil erbyn ein cyfarfod yn mis Chwefror 2019.

We have received a letter from Bopath Children's Therapy Center for Wales asking for our contribution again this year. Unfortunately we had received the letter too late to consider the application. We will leave the application on our file ready for our meeting in February 2019.

6. Cynllunio / Planning

6.1 Ceisiadau / Applications

37C176A – Ty Croes, Brynsiencyn. *New Shed and Greenhouse.*

Dim sylw / No action required.

6.2 Penderfyniadau / Decisions

Dim / None

7. Gohebiaethau / Correspondence

(1) Un Llais Cymru – Mawrth / March 2018.

(2) Steve Morgan Foundation / Funding available for people with disabilities.

(3) North Wales Fire and Rescue – March Magazine.

(4) Grant Chwarae Cymunedol / Community Play Grant

(5) CSYM Ymdrechion Glanhau Traethau / IoACC Beach Cleaning Efforts

8. Unrhyw Fater Arall / Any Other Business

8.1 Grant Chwarae Cymunedol / Community Play Grant

Penderfynwyd gadael hwn tan mis cyfarfod mis Ebrill.

It was decided to leave this until April's meeting.

8.2 Adroddiad Cynghorydd Eric Wyn Jones / Councillor Eric Wyn Jones Report

Fe wnaeth **EWJ** mynychu cyfarfod cau ysgolion eto neithiwr, y tro yma Ysgol Talwrn ag Ysgol Biwmares. Mae Pwyllgor Gwaith Môn wedi cytuno i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus unwaith eto.

EWJ attended school closure meeting again last night, this time Talwrn and Beaumaris Primary Schools. Anglesey's Executive has agreed to hold a public consultation once again.

9. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf / Date of Next Meeting

Nos Fawrth, 24/04/2018 am 6.30 o'r gloch yn y Cae Chwarae, Brynsiencyn.

Tuesday Evening, 24/04/2018 at 6.30 o'clock at Playing Field, Brynsiencyn.

Arwyddwyd – Cadeirydd / Signed – Chairperson

Dyddiad / Date: